**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Justin Albert
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Tŷ 'r Offeiriad
Tŷ Tredegar
Casnewydd, NP10 8YW

4 Ionawr 2017

Annwyl Mr Albert

**Cymru Hanesyddol**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cael ystod eang o ohebiaeth yn mynegi pryder ynghylch y goblygiadau posibl i Amgueddfa Genedlaethol Cymru o ganlyniad i sefydlu Cymru Hanesyddol.

O ganlyniad, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mr David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgueddfa Genedlaethol, ac rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, Ken Skates AC.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet ac wedi cytuno y byddai'n well dychwelyd at y mater hwn unwaith y bydd y Grŵp Llywio yr ydych yn ei gadeirio wedi cwblhau ei waith.

Rwyf felly wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn iddo roi gwybod i mi cyn gynted ag y bydd y Grŵp Llywio wedi adrodd yn ôl a bod yr adroddiad ar gael. Pan fydd yr adroddiad ar gael, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi a'r Ysgrifennydd Cabinet fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor i ateb cwestiynau'r Aelodau am yr adroddiad a'i argymhellion.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb. Rwy'n anfon copi at yr Ysgrifennydd Cabinet ac rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg ato hefyd.

Yn gywir

Bethan Jenkins

**Bethan Jenkins AC**

**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDGCh@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCWLC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCWLC
0300 200 6565